MENTERA

# Manyleb Swydd

**Teitl y Swydd:** Pennaeth Datblygu
**Prosiect:** Cyswllt Ffermio
**Rheolwr Llinell:** Cyfarwyddwr Gwledig
**Cyflog:** £48,468.13

---

## Nod

- Rhoi arweiniad gweithrediadol strategol i'r rhaglen Cyswllt Ffermio
- Rheoli ac ysbrydoli'r tîm o Swyddogion Datblygu drwy'r Rheolwyr Rhanbarthol gan sicrhau bod canlyniadau'n cael eu cyflawni yn erbyn targedau a bod Cyswllt Ffermio yn gwneud gwahaniaeth i ffermio Cymru
- Datblygu a gweithredu rhaglen grwpiau trafod Cyswllt Ffermio ar draws Cymru
- Cydweithio gyda Phennaeth y Gwasanaeth Cynghori pan fo angen ar waith meincnodi
- Pwynt cyswllt ac ysgrifennydd i Fwrdd Rhaglen Cyswllt Ffermio
- Derbyn dyletswyddau rhesymol eraill fel aelod o Bwyllgor Rheoli Menter a Busnes

## Prif Gyfrifoldebau

Arwain, rheoli, cymell, ysbrydolia datblygu'r tîm o Swyddogion Datblygu'r rhaglen drwy'r Rheolwyr Rhanbarthol

- Sicrhau fod prif amcanion cytundeb Cyswllt Ffermio yn cael eu gweithredu o safbwynt
siwrne'r cwsmer a chofnodion unigol
- Gweithio gyda'r Rheolwr Contract a Rheolwyr eraill Cyswllt Ffermio i ddarparu rhaglen o'r answadd uchaf.
- Sicrhau bod targedau'r tîm yn cael eu cyflawni a bod y gwasanaeth a ddarperir o'r safon uchaf
- Sicrhau bod strategaethau a pholisïau Llywodraeth Cymru'n cael eu cynnwys yn narpariaeth y rhaglen
- Arwain ar sefydlu a rhedeg rhwydwaith o grwpiau trafod ar draws Cymru
- Goruchwylio gwariant yr elfennau hynny o Cyswllt Ffermio sydd o dan ofal y Rheolwyr Rhanbarthol a'r Swyddogion Datblygu ynghyd ag elfennau penodol eraill
- Gweithio fel rhan o dîm Rheolwyr Cyswllt Ffermio i sicrhau gwariant cost-effeithiol y cyllidebau a darpariaeth y rhaglen
- Gweithio'n agos gyda Rheolwyr Cyswllt Ffermio i ledaenu themâu, ymchwilio canfyddiadau a chynnwys y rhaglen i staff
- Cynrychioli Cyswllt Ffermio, yn ôl cyfarwyddiadau'r Rheolwr Contract, drwy fynd i gyfarfodydd grwpiau/pwyllgorau perthnasol, canfod ffyrdd o gydweithredu

MENTERA

gyda gwasanaethau/sefydliadau eraill i wella darpariaeth y gwasanaeth yn gyffredinol
- Gweithredu'r holl bolisïau, gweithdrefnau a phrosesau'n effeithiol
- Monitro, adolygu ac adrodd yn gywir ar ganlyniadau, gwariant a pherfformiad yr elfennau perthnasol o Cyswllt Ffermio o dan ofal y swydd i'r Rheolwr Contract a Llywodraeth Cymru yn unol â gofynion y contract, gan gynnwys creu a chynnal systemau rheoli effeithiol er mwyn bodloni gofynion perthnasol archwiliad
- Yn gyfrifol am gydymffurfiaeth Cyswllt Ffermio i reoliadau GDPR
- Bod yn brif bwynt cyswllt a darparu gwasanaeth ysgrifenyddol i Fwrdd y Rhaglen
- Cysylltu a delio gydag unigolion perthnasol o fewn Llywodraeth Cymru gan fynychu cyfarfodydd adolygu contract yn rheolaidd
- Sefydlu a gweithredu prosesau newydd o fewn y rhaglen
- Paratoi adroddiadau yn ôl y galw i Lywodraeth Cymru ac eraill ar gyrhaeddiadau'r rhaglen
- Cyfrannu at ddatblygiad strategol y rhaglen

**Arall**

- Sicrhau bod y safonau'n cael eu cyrraedd ar gyfer gwasanaethau'r cwsmer, ansawdd, cydraddoldeb ac amrywiaeth, iechyd a diogelwch a bio-ddiogelwch
- Derbyn dyletswyddau a chyfrifoldebau rhesymol eraill yn ôl y galw
- Cynrychioli Menter a Busnes yn ôl y galw

## Sgiliau a Phrofiad

**Hanfodol**
- Addysg hyd lefel gradd, neu gyfatebol, mewn amaeth neu bwnc perthnasol
- Cymhwyster rheoli a/neu brofiad dangosadwy ar lefel rheoli strategol
- Profiad dangosadwy o weithio yn y diwydiant amaethyddol yng Nghymru
- Gwybodaeth drwyadl am y sectorau amaeth a choedwigaeth yng Nghymru, gyda'r gallu i adnabod yr wybodaeth ddiweddaraf a'r gwaith ymchwil sy'n berthnasol i'r sectorau hynny
- Gallu lledaenu themâu, canlyniadau ymchwil a chynnwys rhaglenni mewn ffordd ymarferol a chlir sy'n berthnasol i'r gynulleidfa
- Ymwybyddiaeth eang o ddatblygiad polisi amaethyddol, yn ogystal â strategaethau a pholisïau Llywodraeth Cymru
- Gallu monitro perfformiad gwasanaeth is-gontractwyr yn effeithiol, gan weithredu'n brydlon ac yn broffesiynol, fel y bo'r angen, i wella problemau a welwyd.
- Rhwydweithiau wedi'u datblygu'n dda ar lefel strategol, ynghyd â phrofiad o feithrin perthnasoedd cydweithredol strategol gyda gwasanaethau/sefydliadau yng Nghymru
- Sgiliau rheoli a chynllunio ariannol rhagorol, gan sicrhau bod cyllidebau'n cael eu gwario'n brydlon ac yn gost-effeithiol

- Profiad dangosadwy o ddatblygu prosesau effeithiol ar gyfer casglu a dadansoddi canlyniadau yn erbyn targedau ar lefelau unigol, tîm a rhaglen
- Gallu datblygu ac integreiddio gwasanaethau newydd mewn ffordd effeithiol a phrydlon
- Gallu gwneud penderfyniadau anodd ac amserol er budd y busnes a/neu'r gwasanaeth, gan gynnwys codi pryderon priodol am ddarpariaeth y gwasanaeth, cyllidebau a staff/is-gontractwyr
- Gallu ysgogi ei hun i weithio gan dderbyn y cyfrifoldeb am osod ac adolygu blaenoriaethau i gyflawni targedau, gyda ffocws clir ar ansawdd
- Sgiliau cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig rhagorol
- Sgiliau TG rhagorol gan gynnwys - Windows; Meddalwedd cynhyrchiant (e-bost, prosesu geiriau, taenlenni, ffeilio data); Defnydd diogel o gyfrifiaduron a'r rhyngrwyd (chwilio a phori'r we, defnyddio gwefannau a chymwysiadau ar-lein)
- Os yn gweithio o adref am unrhyw adeg, bydd gofyn bod gennych gysylltiad rhyngrwyd addas yn barod.
- Trwydded yrru lawn a char i'w ddefnyddio

**Dymunol**
- Profiad blaenorol o drefnu digwyddiadau proffil uchel mawrion
- Gwybodaeth am y Rhaglen Cyswllt Ffermio
- Sgiliau cyfathrebu dwyieithog (Cymraeg/Saesneg) llafar ac ysgrifenedig rhagorol

## Gwybodaeth Ychwanegol

Os hoffech sgwrs anffurfiol am y swydd yma, cysylltwch â Eirwen Williams ar 07735 439 062 neu eirwen.williams@mentera.cymru

**Mae gofynion y swydd hon yn golygu ei bod wedi ei chategoreiddio fel a ganlyn:**

- **Trwydded yrru a char i'w ddefnyddio at ddibenion busnes:**
    - Diangen
    - Dymunol
    - Hanfodol ✓
- **Gallu yn yr iaith Gymraeg:**
    - Gwrando/Siarad: Lefel 3
    - Darllen/Deall: Lefel 3
    - Ysgrifennu: Lefel 3

*Mae Mentera yn darparu hyfforddiant sgiliau iaith i bob aelod o staff sy'n awyddus i ddatblygu eu defnydd o'r Gymraeg.*

**Sut i ymgeisio**

Gallwch wneud cais am y swydd hon drwy gwblhau ffurflen gais a ffurflen cyfleoedd cyfartal a'u dychwelyd at swyddi@mentera.cymru erbyn 10 yb, dydd Llun, 16 Medi 2024

**Cyfweliadau**

Byddwn yn cynnal y cyfweliadau ar gyfer y swydd hon ar yr wythnos cychwyn 16 Medi 2024. Os nad yw'r dyddiad yma'n gyfleus, nodwch hynny ar eich ffurflen gais os gwelwch yn dda.

**Datganiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth**

Mae Mentera wedi ymrwymo i gefnogi a hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth a chreu amgylchedd cynhwysol yn y gweithle. Rydym o'r farn y gellir gwneud hyn drwy ddenu, datblygu a chadw ystod amrywiol o bobl o lawer o gefndiroedd gwahanol. Felly, rydym yn croesawu ceisiadau gan bobl o bob rhan o'r gymuned, beth bynnag fo'u rhyw, ethnigrwydd, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth draws, statws perthynas, crefydd neu gred, cyfrifoldebau gofalu neu oedran. Er mwyn cefnogi ein cyflogeion i sicrhau cydbwysedd rhwng eu gwaith a'u bywyd personol, am rhan fwyaf o'n swyddi byddwn yn ystyried cynigion i weithio'n hyblyg neu rannu'r swydd.